# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-12-09)**

## SLC283: Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

#### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

#### Teitl: Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu tair Cyfarwyddeb y Comisiwn sy'n llywodraethu meini prawf purdeb ar gyfer lliwiau, melysyddion ac ychwanegion amrywiol eraill a ddefnyddir mewn bwydydd.
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach, o ran Cymru, Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995, Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995 a Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995.

#### Y Weithdrefn Negyddol

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn am y rhesymau a ganlyn:
Ymddengys bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol (Rheol Sefydlog 15.2 (vi))
Yn y testun Saesneg mae Rheoliad 3(2)(a) yn cyfeirio at hepgor y diffiniad o "Gyfarwyddeb 95/31/EC" yn Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995.
Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae Rheoliad 3(2)(a) yn cyfeirio at hepgor "Cyfarwyddeb 95/45/EC" sy'n anghywir ac yn amherthnasol i'r Rheoliadau hyn.
Y gyfarwyddeb y dylid cyfeirio ati yw "Cyfarwyddeb 95/31/EC.

#### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

#### Mai 2009

#### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Mae'r Llywodraeth wedi mynegi ei bod yn cytuno â'r pwynt yn yr adroddiad a'i bod yn bwriadu gwneud Rheoliadau diwygio i gywiro'r gwall cyn y toriad dros yr haf